# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 23 MAI 2000

## RHAN 2 – ADRAN H

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Etholiadau i Fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

1. Nodi bod ei gais i ddod yn aelod o Ganolfan Ewropeaidd Cymru, a gyflwynwyd gan y Prif Ysgrifennydd yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod llawn ar 29 Chwefror 2000, wedi'i dderbyn;

2. Penodi Aelodau canlynol y Cynulliad yn Gyfarwyddwyr ar Fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru:

Aelodau Llawn

(i) Rhodri Morgan AM

(ii) Ieuan Wyn Jones AM

(iii) Nick Bourne AM

3. Mynnu nad yw unrhyw Gyfarwyddwr sy'n bwriadu arfer ei bwerau o dan Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni i benodi Cyfarwyddwr yn ei le, ond yn gwneud hynny drwy benodi Aelod priodol y Cynulliad fel a nodir isod :

Aelod Llawn: Aelod Priodol Arall yn ei Le:

Rhodri Morgan AM Val Feld AM

Ieuan Wyn Jones AM Elin Jones AM

Nick Bourne AM Mick Bates AM

4. Penodi Aelodau canlynol y Cynulliad i fwrw pleidlais y Cynulliad, os y bydd angen, mewn unrhyw Gyfarfod Cyffredinol o Ganolfan Ewropeaidd Cymru, gan roi sylw i farn y pleidiau yn y Cynulliad,

cyhyd ag y gellir cadarnhau'r farn honno, cyn bwrw'r bleidlais:

Rhodri Morgan AM neu, os nad yw ef yn bresennol, Val Feld AM

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

Dileer 'cyhyd ag y gellir cadarnhau'r farn honno, cyn bwrw'r bleidlais' yn y frawddeg olaf.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 20

Ymatal 1

Yn erbyn 26

Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Y cynnig**

O Blaid 47

Ymatal 1

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.10pm**
**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf

**2.43pm**
**Mater O Drefn**

Cododd Ieuan Wyn Jones fater o drefn ynghylch beirniadaeth honedig Christine Gwyther o swyddogion Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn ddiweddar, a gofynnodd am

farn y Llywydd ynghylch a oes unrhyw ganllawiau'n berthnasol i'r mater hwn.

Cyfeiriodd y Llywydd yr aelodau at y Memorandwm Dealltwriaeth, ac yn arbennig y concordat gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, a nodi yr ymdrinnir â materion o'r fath yn y ddogfen hon.

Cododd Nick Bourne bwynt o dan reol sefydlog 6.8 ynghylch datganiadau a chyhoeddiadau a wneir gan Ysgrifenyddion y Cynulliad yn enw'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na'r weithrediaeth, pan nad oedd y Cynulliad wedi trafod materion o'r fath.

Cytunodd y Prif Ysgrifennydd i edrych ar unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi hyn.

Cododd Glyn Davies fater o drefn ynghylch cywirdeb atebion i Gwestiynau'r Cynulliad.

Dywedodd y Trefnydd bod arolwg o'r gweithdrefnau a'r arferion presennol ar y gweill.

Gofynnodd Brian Gibbons i'r Llywydd a oedd am lynu'n gaeth at yr amseroedd a nodir ar ddechrau dadleuon.

Cadarnhaodd y Llywydd y byddai'n gwneud hynny ac y bwriedir gosod cloc electronig yn fuan er mwyn cynorthwyo i reoli hyn.

**2.58pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

Gwrthwynebodd dros 10 aelod i'r datganiad busnes. Cymerwyd pleidlais:

O Blaid 21

Ymatal 0

Yn erbyn 28

Cyfanswm 49

Gwrthodwyd y datganiad busnes a chytunodd y Trefnydd i ddod â datganiad busnes diwygiedig gerbron cyn gynted ag y bo modd.

**3.08pm**
**Dadl ar Raglen Amcan 2**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn;

i. rhoi sêl ei fendith i'r Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft ar gyfer

ardaloedd Amcan 2 ac ardaloedd y Rhaglen Drosiannol yn y Dwyrain, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2000; a

ii. yn awdurdodi'r Prif Ysgrifennydd i drefnu ei bod yn cael ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys unrhyw newidiadau a fydd yn gwbl angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion technegol, a hynny cyn gynted ag y bo modd

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Yn llinell 1 ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol' ychwaneger 'o gael yr addewidion priodol';

**Gwelliant 2 - Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger fel pwynt bwled ii. newydd 'cydnabod bod ardal Amcan 2 yn cynnwys yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â'r ganran uchaf o breswylwyr sydd heb fod yn wyn eu croen ac yn pwysleisio bod gan raglen Amcan 2 gyfrifoldeb arbennig i sicrhau bod lleiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan lawn ym mywyd economaidd a chymdeithasol Cymru,'

Ailrifo'r pwynt bwled ii presennol fel pwynt iii

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru);**

Ychwaneger pwynt ii. newydd, ac aildrefner y pwyntiau sy'n dilyn:

ii. gresynu at benderfyniad y weinyddiaeth i eithrio wardiau difreintiedig yn y Barri o ardal Amcan 2; a

**Gwelliant 4 – Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger fel pwynt bwled newydd 'iv. mynegi pryder y gall y rhaglen gyffredinol – yn ôl ei chyfaddefiad ei hun – wneud cyfraniad negyddol i rai agweddau ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac felly y mae'n cynghori'r Prif Ysgrifennydd i roi mwy o sylw yn y ddogfen newydd i gymhwyso technoleg lân, darparu cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol, gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd trefol a gwledig a gweithredu strategaeth fwy cynaliadwy ar gyfer gwaredu gwastraff, a'

**Gwelliant 5 - Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger fel pwynt bwled newydd 'v. cyfarwyddo'r Prif Ysgrifennydd i negodi â'r Trysorlys i sicrhau bod digon o arian, yn ychwanegol at y bloc Barnett, ar gael fel arian cyfatebol i ddyraniad arian strwythurol llawn Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer rhaglen Amcan 2 yng

Nghymru, ac i’r elfen o’r arian cyfatebol a ddaw o goffrau cyhoeddus’.

**Gwelliant 6 - Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

"Mae’r Cynulliad yn gofyn ymhellach i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd gyflwyno cynigion i sicrhau bod prosiectau a roddir ar waith yn ardal Amcan Dau a’r rheini mewn rhannau eraill o Gymru sy’n derbyn Arian Strwythurol o Ewrop yn cyd-ategu’i gilydd, ac i sicrhau yn enwedig bod modd i brosiectau llwyddiannus mewn un ardal gael eu dyblygu mewn ardaloedd eraill."

**Tynnwyd gwelliant 1 yn ôl**

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 2**

O Blaid 49

Ymatal 1

Yn erbyn 0

Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 28

Ymatal 0

Yn erbyn 23

Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 49

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 51

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 50

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 50

**Cymeradwywyd gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 51

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.08pm**

**Dadl ar Raglen Weithredol Amcan 3**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn;

i. cymeradwyo cynigion Partneriaeth y Dwyrain ar gyfer y strategaeth, y blaenoriaethau a'r mesurau dangosol ar gyfer Amcan 3 sydd i'w gweld yn nogfen ddrafft y Rhaglen Weithredu a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2000;

ii. mabwysiadu dogfen ddrafft y Rhaglen Weithredu ac yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd, gan ymgynghori fel y bo angen â'r pleidiau gwleidyddol eraill, lunio fersiwn terfynol gan drafod â'r Comisiwn Ewropeaidd a sicrhau penderfyniad ffafriol gan y Comisiwn cyn gynted ag y bo modd; ac

iii. yn gwahodd y Prif Ysgrifennydd i gytuno ar y trefniadau angenrheidiol gyda'r bartneriaeth fel y bo modd lansio rhaglen Amcan 3 cyn diwedd mis Gorffennaf 2000

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion);**

Ym mhwynt bwled 1, llinell 1 ar ôl 'cymeradwyo' rhodder 'er gyda pheth amheuon'

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion);**

Ar ddiwedd pwynt bwled 2, dileer 'ac', ar ddiwedd pwynt bwled 3 dileer y collnod llawn ac ychwaneger '; a'

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion);**

Ym mhwynt bwled 3 dileer 'gwahodd y' a rhodder 'awdurdodi'r' yn ei le

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion);**

Ychwaneger pwynt bwled 4 newydd 'iv. nodi ei bod yn hanfodol o safbwynt adfywiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ein bod yn cadw pobl ifanc cymwys a chrefftus o fewn gweithlu Cymru ac yn penderfynu y dylai hyn fod yn ddangosydd allweddol i asesu llwyddiant y rhaglen, a hefyd rhaglen Amcan 1.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion);**

Ychwaneger pwynt bwled 5 newydd ‘v. cyfarwyddo’r Prif Ysgrifennydd i negodi â’r Adran Addysg a Chyflogaeth a’r Trysorlys i sicrhau bod y cyfrifoldeb llawn am arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei drosglwyddo o’r Adran Addysg a Chyflogaeth i’r Cynulliad Cenedlaethol a bod digon o arian, yn ychwanegol at y bloc Barnett, ar gael fel arian cyfatebol i’r dyraniad o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i Gymru ac i’r elfen o’r arian cyfatebol a ddaw o goffrau cyhoeddus.

**Gwelliant 6 - Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger pwyntiau bwled 4 a 5:

"iv. gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd gyflwyno cynigion i sicrhau bod prosiectau a roddir ar waith yn ardal Amcan Tri a’r rheini mewn rhannau eraill o Gymru sy’n derbyn Arian Strwythurol o Ewrop yn cyd-ategu’i gilydd, ac i sicrhau yn enwedig bod modd i brosiectau llwyddiannus mewn un ardal gael eu dyblygu mewn ardaloedd eraill."

"v. annog y dylid gwneud pob ymdrech i roi cyhoeddusrwydd i’r rhaglen hon yn ardal Amcan 3, ac y dylid gwneud ymdrech arbennig i annog grwpiau a sefydliadau nad ydynt eisoes wedi cymryd rhan mewn rhaglenni a ariennir gan Ewrop i gymryd rhan"

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 41

Ymatal 0

Yn erbyn 6

Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2 + 4**

O Blaid 48

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd gwelliannau 2 a 4**

**Gwelliant 3**

O Blaid 48

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd gwelliant 3**

**Gwelliant 5**

O Blaid 48

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 48

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 48

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**5.02pm**

**Cadarnhau newidiadau i Reolau Sefydlog 19, 22.12 a 27**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 26, yn;

i) cymeradwyo’r diwygiadau canlynol i’r Rheolau Sefydlog;

ii) penderfynu bod yr holl ddiwygiadau yn dod i rym ar unwaith;

**Diwygiad 1**

Rhodder y canlynol yn lle paragraffau 19.1 – 19.12 ac ailrifo paragraffau 19.13 – 19.23 yn 19.11 – 19.21:

**Penderfynu Cyllideb y Cynulliad**

19.1 Yn ystod pob blwyddyn ariannol, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn gwahodd pwyllgorau pwnc i gyflwyno sylwadau, fel rheol erbyn dyddiad o leiaf 8 wythnos ar ôl dyddiad y gwahoddiad ac erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf, ar flaenoriaethau gwariant y Cynulliad yn ystod y tair blynedd ariannol ddilynol, neu am gyfnod y mae Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn barnu ei fod yn briodol.

19.2 Fel rheol, ym mis Hydref mewn unrhyw flwyddyn, a, sut bynnag, erbyn 15 Tachwedd fan bellaf, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cyllideb ddrafft. Ar yr un pryd, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn nodi’r gyllideb ddrafft. Bydd y gyllideb ddrafft yn nodi dyraniad arfaethedig adnoddau’r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol a’r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedi hynny, neu am gyfnod y mae Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn barnu ei fod yn briodol. Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i’r Cynulliad nodi’r gyllideb ddrafft, bydd pob Ysgrifennydd Cynulliad sy’n aelod o bwyllgor pwnc yn gwahodd ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft ac yn eu trosglwyddo i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad.

19.3 Fel rheol, y mis Tachwedd hwnnw, a, sut bynnag, erbyn 10 Rhagfyr fan bellaf, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cyllideb derfynol a fydd ar gyfer yr un cyfnod â’r gyllideb ddrafft o dan baragraff 19.2. Ar yr un pryd, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb derfynol yn cael ei mabwysiadu. Ni fydd modd cynnig gwelliant i gynnig bod y gyllideb derfynol yn cael ei mabwysiadu.

19.4 Ar ôl i’r gyllideb derfynol gael ei mabwysiadu, ond cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ddilynol, caiff Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad gyflwyno cyllideb atodol sy’n nodi newidiadau i’r gyllideb derfynol honno sy’n deillio o newidiadau i gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU neu newidiadau technegol eraill sy’n ymwneud â’r gyllideb. Ar yr un pryd, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb atodol yn cael ei mabwysiadu. Ni fydd modd cynnig gwelliant i gynnig bod cyllideb atodol yn cael ei mabwysiadu.

**Addasiadau i Gyllideb y Cynulliad yn ystod y Flwyddyn**

19.5 Ac eithrio mewn achosion brys, ni fydd unrhyw newid, yn ystod blwyddyn ariannol, i lefel yr adnoddau a ddyrennir i brif grp gwariant yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan baragraff 19.3 neu, yn ôl y galw, 19.4, gan gynnwys sefydlu prif grp gwariant newydd, ond yn cael ei wneud drwy gynnig a gyflwynir gan Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad. Ni fydd modd cynnig gwelliant i unrhyw gynnig o’r fath. Mewn achosion brys, caiff Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i unrhyw brif grp gwariant, neu sefydlu prif grp gwariant newydd, ond, mewn unrhyw achos o’r fath, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn gadael i’r Cynulliad wybod, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, am y camau a gymerwyd.

19.6 Yn ystod blwyddyn ariannol, caiff Ysgrifennydd Cynulliad, gyda chytundeb Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn prif grp gwariant rhwng ac o fewn dyraniadau ariannol ar gyfer meysydd y mae’r Ysgrifennydd Cynulliad hwnnw’n gyfrifol amdanynt. Lle y byddai’r trosglwyddo arfaethedig yn newid y dyraniadau yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan baragraff 19.3 neu, yn ôl y galw, 19.4, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn ymgynghori â’r pwyllgor pwnc perthnasol yn ei gylch, ac eithrio mewn achosion brys; os na fydd modd ymgynghori, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gadael i’r pwyllgor wybod, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, am y camau a gymerwyd.

19.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol, caiff Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn prif grp gwariant a rhwng dyraniadau ariannol ar gyfer meysydd y mae gwahanol Ysgrifenyddion Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Lle y byddai’r trosglwyddo arfaethedig yn newid y dyraniadau yn y gyllideb derfynol, neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan baragraff 19.3 neu, yn ôl y galw, 19.4, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad priodol yn ymgynghori â’r pwyllgorau pwnc perthnasol ar y trosglwyddo arfaethedig, ac eithrio mewn achosion brys; os na fydd modd ymgynghori, byddant yn gadael i’r pwyllgorau wybod cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol am y camau a gymerwyd.

**Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol**

19.8 Caiff yr adroddiadau y sonnir amdanynt yn y paragraff hwn eu gwneud drwy gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad:

(i) adroddiad cyllid llywodraeth leol o dan adran 78A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988");

ii) adroddiad diwygiol o dan adran 84A o Ddeddf 1988, neu o dan baragraff 13 o Atodlen 8 i’r

Ddeddf honno;

(iii) adroddiad grant ychwanegol o dan adran 85 o Ddeddf 1988;

(iv) adroddiad grant arbennig o dan adran 88B o Ddeddf 1988.

19.9 Pryd bynnag y caiff cyllideb ddrafft ei chyflwyno o dan baragraff 19.2, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad sy’n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol, ar yr un pryd neu cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol wedi hynny, yn cyflwyno drafft o adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad sy’n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol yn cyflwyno’r adroddiad ar ei ffurf derfynol gerbron y Cynulliad erbyn 15 Chwefror fan bellaf mewn unrhyw flwyddyn a bydd ar yr un pryd yn cyflwyno cynnig bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

19.10 Ni fydd modd cynnig gwelliant i gynnig bod unrhyw adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 19.8 yn cael ei gymeradwyo.

**<u>Diwygiad 2</u>**

**Paragraff newydd 22.12A**

(i) Lle bo Gorchymyn drafft (gan gynnwys Gorchymyn drafft wedi’i ddiwygio) a osodwyd gerbron y Cynulliad yn cynnwys gwallau teipio neu ramadegol, neu fân wallau drafftio y nodwyd gan y Pwyllgor Deddfau fel rhai sy’n briodol eu cywiro o dan y ddarpariaeth hon, gall yr Ysgrifennydd Cynulliad a osododd y Gorchymyn drafft osod Memorandwm Cywiriadau gerbron y Cynulliad yn nodi’r newidiadau angenrheidiol i gywiro’r gwallau, gan wneud hynny cyn cyflwyno’r cynnig yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad i’r drafft. Pan fo Memorandwm o’r fath wedi’i osod gerbron, cyfeirir at hynny yn y cynnig i geisio cymeradwyaeth i’r drafft, ac os caiff ei gymeradwyo, a hynny’n amodol ar is-baragraff (ii), cymerir iddo gael ei gymeradwyo a’i ddiwygio gan y Memorandwm Cywiriadau oni bai bod unrhyw welliant yn cael ei ddisodli gan welliant i’r drafft y cytunwyd arno gan y Cynulliad yn y cyfarfod llawn.

(ii) Os ymddengys i’r Llywydd bod Memorandwm Cywiriadau yn cynnwys gwelliant ar wahân i un sy’n angenrheidiol er mwyn cywiro gwallau teipio neu ramadegol neu fân wallau drafftio, bydd y Llywydd yn dyfarnu bod y gwelliant hwnnw yn annerbyniol, ac os cymeradwyir y drafft, ni chymerir iddo gael ei ddiwygio ganddo.

**<u>Diwygiad 3</u>**

Yn rheol sefydlog 27.9

Ychwaneger

"(iv) paragraff 8.25A"

**Cymerwyd pleidlais:**

**Y cynnig**

O Blaid 48

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd y cynnig**

**5.02pm**

**Cynigiodd y Trefnydd ddatganiad busnes diwygiedig a dywedodd y byddai datganiad yn cael ei wneud ar BAE Brychdwn y diwrnod canlynol.**

**Cymeradwywyd y datganiad busnes diwygiedig.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.08pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 24 Mai 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DEISEB I'R CYNULLIAD

Cyflwynwyd i'r Cynulliad gan Gyfeillion y Ddaear gyda 10,000 o lofnodion.

*Deiseb i Gael Amgylchedd Cymru yn Rhydd o OAE*

Yr ydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddefnyddio ei bwerau i sicrhau na fyddai'n caniatáu rhyddau cnydau wedi'u haddasu'n enetig i Amgylchedd Cymru hyd nes y bydd yn sicr y byddai gwneud hynny yn ddiogel i iechyd dynolryw a'r amgylchedd.

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS CYFARFOD LLAWN DIWETHAF Y CYNULLIAD

### DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 17 MAI 2000

- Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC91) - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Ragnodir) a (Ffurflen a Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 2000
- Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC90) - Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2000
- Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC89) - Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000
- Adroddiad I'r Pwyllgor Deddfau (LC86) - Rheoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Diwygio) (Cymru) 2000
- Education Strategic Plans (1999-2000) Produced by the 22 Welsh Unitary Authorities - (No Welsh Copies Available)